Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 430

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Cylld tuag at brofion antigen prostad-benodol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Ffederasiwn yr Heddlu wedi cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gydweithio â nhw i gefnogi'r gost o gyflenwi profion antigen prostad-benodol ar gyfer pob cyfranogwr cymwys a gyflogir gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r Comisiynydd wedi gofyn am gyfraniad o £1,620.00.

Bydd yr ymagwedd a ariennir ar y cyd yn galluogi swyddogion a staff 45 oed a hŷn i gymryd rhan drwy becyn profi gartref a weinyddir gan Ymddiriedolaeth Elusennol Graham Fulford. Mae'r pecynnau profi gartref yn galluogi cyfranogwyr i gael prawf gwaed syml a allai ddangos pa un ai a oes ganddynt broblem â'u prostad ac angen cymryd camau gweithredu pellach drwy eu meddyg teulu.

Mae cost y gweithgarwch yn cynnwys mynediad at brawf (gan gynnwys gwasanaeth archebu), dosbarthu, dadansoddiad labordy, adrodd am ganlyniadau, a deunydd marchnata i hyrwyddo'r gwasanaeth.

**Argymhelliad:**
Rhoi £1,620.00 tuag at gostau profion antigen prostad-benodol o'r gronfa arloesedd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** [signature] **Dyddiad: 17/12/2025**